

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 13 IONAWR 2017

Yn                   Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd)  
bressenol:                   Cynghorwyr Murphy a/ac Goddard

1     :   DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

1     :   ADOLYGU TRWYDDED SAFLE - LLANDAFF INSTITUTE

Ymgeisydd: Caroline Hickingbottom

Trwyddedai: Alan Grove, Ysgrifennydd Clwb  
                  Stephen Lomax, Trysorydd Clwb

Awdurdod Cyfrifol: Rhys Morgan

Eraill sydd â diddordeb: Cynghorydd Paul Mitchell  
                                  Madeline Kurmas  
                                  Paul Jeffrey

### Cais

Derbyniwyd cais am Adolygiad o Dystysgrif Clwb mewn perthynas â Thystysgrif Safle Clwb a ddelir gan Sefydliad Llandaf, 10 Stryd Fawr, Llandaf, Caerdydd. Nodwyd manylion y sail ar gyfer adolygiad yn yr adroddiad. Mae'r cais yn ymwneud â'r amcan trwyddedu - atal niwsans cyhoeddus

### Sylwadau Ymgeisydd

Anerchodd Mrs Caroline Hickingbottom yr Is-Bwyllgor. Hysbyswyd yr Aelodau bod manylion y cais wedi eu nodi yn y sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd o'r blaen ac nid oedd llawer mwy roedd hi am ei ychwanegu. Dywedodd Mrs Hickingbottom nad oedd am weld Sefydliad Llandaf yn cau ond byddai'n hoffi peidio clywed cerddoriaeth o'r Sefydliad hwn yn ei chartref ei hun.

Dywedodd Mrs Hickingbottom ei bod wedi ceisio ymgysylltu â rheolwyr safle'r Clwb heb lwyddiant. Yn wir, yn bersonol doedd hi erioed wedi cwrdd â chynrychiolwyr y clwb cyn y gwrandawriad heddiw. Roedd Mrs Hickingbottom wedi anfon e-bost at y clwb drwy eu gwefan, a phan na dderbyniwyd ateb i'r e-bost hwnnw, mi ysgrifennodd lythyr a ffoniodd y clwb a siarad gyda stiward y clwb.

Yn ystod sgwrs ffôn ddilynol gyda Mr Alan Groves rhoddwyd sicrwydd y byddid yn mynd i'r afael â mater y niwsans sŵn. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon na ddilynwyd y sicrhad hyn gan gamau gweithredu.

Dywedodd Mrs Hickingbottom ar nosweithiau Sadwrn pan gynhelir digwyddiadau a phartïon ar y safle y terfir arni gan gerddoriaeth uchel a'i bod yn gallu clywed

caneuon penodol, y geiriau o'r caneuon yn cael ei chwarae a gall hi hefyd glywed y DJ yn siarad pan fydd yn defnyddio meicroffon. Mae Rhys Morgan o'r Adran Rheoli Llygredd wedi bod i'w chartref ar nosweithiau Mercher ac wedi clywed cerddoriaeth gan fandiau, ond nid oedd wedi bod yn bresennol pan chwaraewyd cerddoriaeth mewn amrywiol ddigwyddiadau a gynhelir ar y safle pan fo'r Neuadd ar log i bartïon ar nos Sadwrn.

Roedd Ms Hickingbottom o'r farn mai cyfrifoldeb y clwb yw sicrhau nad oes digwyddiadau yn digwydd sy'n aflonyddu ac nad oes unrhyw fesurau lliniaru wedi'u rhoi ar waith i atal y niwsans sŵn. Yr oedd ganddi hawl i fwynhad tawel ar ei chartref ei hun, ac felly roedd yn dymuno gweld sŵn o'r fangre yn cael ei ostwng.

Wrth ymateb i gwestiynau gan Aelodau yr is-bwyllgor, eglurodd Mrs Hickingbottom union leoliad ei chartref mewn perthynas â safle'r clwb ar fap. Dywedodd bod bandiau yn achosi aflonyddwch rheolaidd ar nos Fercher ond bod digwyddiadau eraill yn llai rhagweladwy. Ystyriwyd y sŵn a grëwyd yn annymunol, hawdd ei osgoi ac yn annerbyniol ac mae'n aml yn parhau y tu hwnt i 2300.

Gofynwyd i Mrs Hickingbottom a oedd ei chŵyn yn ymwneud yn unig â digwyddiadau 'meicroffon agored' ar nosweithiau Mercher. Dywedodd fod ei chŵyn yn ymwneud ag unrhyw aflonyddwch. Mae'r Noson Meic Agored yn gorffen am 2300 ond mae digwyddiadau eraill nad ydynt.

#### Sylwadau Awdurdod Cyfrifol

Rhoddodd Rhys Morgan grynodedb o ymwneud Rheoli Llygredd hyd yma. Ar ôl derbyn cwyn ynglŷn â digwyddiadau cerddoriaeth fyw ar y safle ar nosweithiau Mercher, gwnaed ymweliadau â chartref Mrs Hickingbottom. Gwnaed nifer o ymweliadau a chafwyd peth achos i bryderu.

Yn dilyn gohebiaeth gyda Sefydliad Llandaf mabwysiadwyd dull fesul cam i leihau meysydd pryder posibl. Cyflawnwyd rhywfaint o welliant dros amser. Ar 14 Rhagfyr 2016 yn ystod ymweliad nododd Rhys Morgan iddo weld lefelau sŵn a oedd yn sylweddol is, ac nid oedd unrhyw niwsans statudol i'w weld. Roedd Rhys Morgan yn ystyried bod angen ffordd ymlaen oedd yn golygu bod rheolaeth ar waith i sicrhau bod lefelau sŵn yn aros ar yr un lefel ag a dystiwyd ar 14 Rhagfyr 2016.

Roedd Rhys Morgan yn cadarnhau mai yr unig gwynion a dderbyniwyd oedd rhai yn gysylltiedig â nosweithiau Mercher. Nid oedd yn gallu rhoi gwerth rhifiadol ar gyfer lefel y sain a ystyriai ef oedd yn briodol.

Dywedodd Stephen Lomax wrth yr Aelodau fod y clwb yn mesur lefel y sain yn ystod digwyddiadau cerddoriaeth fyw a'u bod ar hyn o bryd mewn cyswllt â rheoli llygredd.

#### Sylwadau eraill o ddiddordeb

Derbyniodd yr is-bwyllgor sylwadau gan y Cynghorydd Paul Mitchell. Dywedodd cynghorydd Mitchell ei fod wedi gwrandao ar y pryderon a fynegwyd gan Mrs Hickingbottom. Fodd bynnag, roedd yn pryderu ynghylch yr effaith yr oedd cwynion preswylwyr yn ei gael ar leoliadau cerddoriaeth fyw ar draws y ddinas. Nododd y Cynghorydd Mitchell bod patrwm yn dod i'r amlwg lle mae trigolion yn symud i mewn i eiddo ger lleoliad cerddoriaeth fyw, maen nhw'n gwneud cwynion ac yna mae'r

Ileoliad yn cau yn y pen draw. Teimlai fod angen mwy o ymchwil gan y rhai sy'n prynu eiddo.

Dywedodd y Cynghorydd Mitchells y bu'n gerddor yng Nghaerdydd am 38 mlynedd a'i fod wedi chwarae mewn bandiau yn Sefydliad Llandaf am dros 5 mlynedd. Ers y derbyniwyd y cwynion cyntaf mae lefelau ar y safle wedi'u monitro a gofynnir bandiau yn gyson i leihau lefelau sain. Roedd yn tystio i'r is-bwyllgor na wahoddir y bandiau hynny nad oedd yn barod i leihau lefelau sain yn ôl.

Ar ddydd Mercher mae cerddoriaeth fyw yn y digwyddiadau i gynulleidfa yn eu 50au, 60au a'r 70au. Mae'r dorf yn fwyn ac nid swnllyd.

Gofynnodd Ms Hickingbottom a oedd y Cynghorydd Mitchell yn mynychu fel cynghorydd neu fel unigolyn preifat. Dywedodd y Cynghorydd Mitchell ei fod yn mynychu fel unigolyn preifat a oedd wedi cynghori 'r Clwb. Roedd Ms Hickingbottom yn synnu, felly, fod y Cynghorydd Mitchell wedi defnyddio ei gyfeiriad e-bost cyngor i gyflwyno ei sylwadau. Dywedodd Mrs Hickingbottom ei bod wedi byw ym mhentref Llandaf am dros 10 mlynedd ac mae trigolion lleol yn gwbl ymwybodol o niwsans sŵn sy'n deillio o safle'r clwb.

Clywodd yr is-bwyllgor hefyd sylwadau gan Paul Jeffries a Marilyn Kurmas. Roedd y ddau yn mynychu'n rheolaidd y digwyddiadau cerddoriaeth fyw a gynhaliwyd ar nos Fercher. Hysbyswyd yr Aelodau bod y digwyddiadau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer dinasyddion hŷn i gymdeithasu.

### Sylwadau Trwyddedai

Dywedodd Mr Alan Grove bod pob cyfathrebiad ar ran y clwb yn gyfrifoldeb iddo ef. Dywedodd nad oedd wedi derbyn e-bost gwreiddiol Mrs Hickingbottom oherwydd problem gyda gwefan y clwb. Roedd y llythyr wedi ei dderbyn ac roedd wedi ymateb, fel yr oedd â phob gohebiaeth arall a dderbyniwyd. Roedd Mr Grove hefyd wedi cysylltu â Rhys Morgan er mwyn mynd i'r afael â materion hyn.

Dywedodd Mr Grove na wnaed unrhyw gyfeiriad o'r blaen i'r partïon preifat a'r digwyddiadau a gynhaliwyd ar y safle ar ddydd Sadwrn. Ymdriniwyd ac ymdrinnir â'r aflonyddwch a achosir yn ystod cerddoriaeth fyw ar nosweithiau Mercher. Mae'r Clwb bellach yn cyflogi DJ 'mewnol' ac ni chaniateir i'r partïon hynny sydd wedi llogi'n breifat ddod â'u DJ. Y DJ eu hunain. Mae'r DJ mewnol yn ymwybodol o'r problemau sŵn.

Dywedodd Stephen Lomax fod ffenestri mawr yn y neuadd lle mae'r digwyddiadau hyn yn digwydd. Roedd y clwb wedi ystyried gosod mesurau gwrthsain ychwanegol megis ffenestri gwydr triphlyg. Fodd bynnag, ystyriwyd y lefelau sŵn yn dderbyniol gan Rheoli Llygredd yn yr ymweliad diwethaf ar 14 Rhagfyr 2016.

Hysbyswyd Aelodau yr is-bwyllgor, ar ôl cael cyngor ar liniaru sŵn gan gerddor sy'n chwarae yn un o'r bandiau sy'n perfformio yn y lleoliad, fod y clwb wedi prynu mesuryddion sain sy'n cael eu defnyddio gan aelodau o'r staff yn ystod perfformiadau i fonitro lefelau sŵn.

Cyfeiriodd Mr Lomax yr is-bwyllgor at y sylwadau manwl a gyflwynodd. Roedd yn pryderu ynghylch yr awgrym nad oedd y clwb wedi cymryd camau i fynd i'r afael â

chwynion niwsans sŵn a'i fod o'r farn fod y clwb wedi gwneud eu 'gorau glas'. Roedd cynrychiolydd o'r clwb wedi cwrdd â gŵr yr ymgeisydd ac yn y cyfarfod wedi gwneud yn glir mai yr unig fater sy'n peri problem oedd y digwyddiad cerddoriaeth fyw ddydd Mercher.

Hysbyswyd yr Aelodau y cynhaliwyd y noson meic agored blaenorol am ddwy awr rhwng 2100 ac 2300 ar ddydd Mercher. Fodd bynnag, fel rhan o'r ymdrech i fynd i'r afael â mater lefel y sŵn, mae'r digwyddiad nawr dim ond yn cynnig cerddoriaeth fyw gan fandiau sydd wedi'u gwahodd i chwarae. Mae'r clwb yn rheoli lefel y sain ar y safle.

Dywedodd Mr Lomax nad oedd y noson cerddoriaeth fyw yn darparu llawer iawn o incwm ar gyfer y clwb. Fodd bynnag, partïon preifat ac archebion eraill oedd yn bwysig i sefyllfa ariannol y clwb.

Gofynnwyd i Aelodau nodi nad oedd unrhyw gwynion eraill gan breswylwyr eraill. Ystyriodd Mr Lomax ei bod yn berthnasol nad oedd yr ymgeisydd yn preswyllo fel arfer yn yr eiddo am gyfnodau sylweddol.

Teimlai Mr Lomax fod yr amodau a awgrymid gan yr ymgeisydd yn feichus a ddim yn gysylltiedig â'r cwynion sŵn. Ceisiwyd cyngor proffesiynol ynghylch gosod dyfais cyfyngu sŵn. Ystyrid bod hyn yn anymarferol, a gellid gwneud hyn drwy fonitro lefel y sŵn.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y clwb wedi ystyried mesurau gwrthsain ychwanegol megis inswleiddio yn y to. Dywedodd Rhys Morgan y byddai unrhyw waith inswleiddio angen ei gynllunio yn unol ag adeilad y neuadd. Byddai angen ystyried y costau cysylltiedig. Byddai angen ymgynghorydd proffesiynol acwstig i ddylunio cynllun o'r fath.

#### Wrth grynhoi

Derbyniodd Mrs Hickingbottom Roedd y clwb wedi cymryd camau i gywiro'r broblem, ond nad yw y mesurau hyn wedi gweithio. Dyna pam y cyflwynwyd cais i adolygu y drwydded safle. Roedd Mrs Hickingbottom o'r farn bod yr amodau a awgrymir yn ei sylwadau yn datrys y broblem aflonyddwch sŵn. Gofynnodd i Aelodau yr is-bwyllgor i ganiatáu iddi fwynhau ei chartref heb sŵn.

Gofynnodd Rhys Morgan i'r Aelodau i ystyried sut orau i sicrhau bod lefelau sŵn priodol yn cael eu cynnal, y modd y gellir cyflawni hyn a sut y gall hyn fod yn barhaol.

Mynnodd Stephen Lomax bod y clwb wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r sŵn a bod y camau gweithredu hynny yn rhesymol ac yn briodol. Rhoddwyd ymrwymiad i sicrhau bod hynny'n parhau.

PENDERFYNWYD – bod yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, adran 182 canllawiau a datganiad polisi trwyddedu yr awdurdod ei hun, ac er mwyn atal niwsans cyhoeddus, ystyriodd yr is-bwyllgor ei bod yn briodol gosod yr amodau canlynol ar dystysgrif eiddo clwb:

1. pob drws a ffenestr allanol i aros (ar wahân i ganiatáu mynd i mewn ac allan o'r fangre) ar gau yn ystod perfformiadau o gerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio.
2. arwyddion i gael eu dangos ar holl allanfeydd y safle'n atgoffa'r Aelodau a'u gwesteion i adael yn dawl.
3. i gyflogi Ymgynghorydd Acwstig sydd â chymwysterau addas (sy'n aelod o Sefydliad Acwsteg neu sefydliad tebyg) i gynhyrchu adroddiad acwstig i Adran Rheoli Llygredd Cyngor gan roi manylion lliniaru sŵn priodol i sicrhau na therfir ar y preswylwyr cyfagos gan sŵn sy'n cael ei allyrru o'r lleoliad. Rhaid cyflwyno'r adroddiad acwstig i'r adran rheoli llygredd erbyn 13 Mawrth 2017. Trwy gytundeb a swyddogion Llygredd Sŵn, rhaid i'r clwb ddefnyddio'r mesurau lliniaru sŵn a awgrymir yn yr adroddiad. Rhaid i'r mesurau gael eu gweithredu o fewn cyfnod amser a gytunir gyda Rheoli Llygredd.

### 3 : CAIS AM DRWYDDED PEIRIANT HAPCHWARAE

Penderfynwyd – bod y Trwyddedau peiriant Hapchwarae yn cael ei gymeradwyo mewn perthynas â'r lleoliadau canlynol:

1. Coyote Ugly – 4 o beiriannau
2. The Four Elms – 4 o beiriannau

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified